# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD LLUN, 25AIN MEDI, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 15 Medi 2023)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Gwynfor Owen

Elfed Williams (Cadeirydd)

Angela Russell

Eryl Jones -Williams (wrth gefn)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd John Brynmor Hughes

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 8

Clwb Golff Abersoch, Lon Golff, Abersoch, LL53 7EY

I ystyried y cais

**<u>TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU</u>**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **25 Medi 2023** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – CLWB GOLFF ABERSOCH** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

1. **CAIS A DDERBYNIWYD**

2. Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Clwb Golff Abersoch, Lon Golff, Abersoch, LL53 7EY, gan Glwb Golff Abersoch. Clwb ar gyfer aelodau yw hwn yn bennaf sydd yn cynnwys bar, ystafell fwyta ac ardal patio.

2.1 Mae'r ymgeisydd yn gofyn am newid o dystysgrif Clwb i drwydded eiddo, gyda'r mwyafrif o'r gweithgareddau trwyddedig yn aros yr un peth. ,

2.2 Gofynnir am gael chwarae cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio tan 02:00 bob dydd yn ogystal a rhoi perfformiadau dramâu a dangos ffilmiau hyd at yr un oriau. Gofynnir am yr hawl i gynnal y gweithgareddau trwyddedig tu mewn a thu allan. Mae hawl i werth alcohol 24 ain awr y dydd bob dydd ar y dystysgrif clwb presennol , ac ar y cais trwydded eiddo. Er nad oes cynnydd cyffredinol yn yr oriau gweithgareddau trwyddedig, mae yr ymgeisydd yn ceisio yr hawl i gynnal gweithgareddau trwyddedig yn hwyrach na'r drwydded gyfredol, ond peidio agor tan amser cinio.

2.3 Defnyddir y clwb gan aelodau yn unig ar hyn o bryd; ond mae cynnal gweithgareddau achlysurol lle mae pobl nad ydynt yn aelodau yn cael mynychu drwy wahoddiad.

2.4 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

2.5 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| **Tystysgrif Clwb Presenol/CurrentClub Certificate** | **Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence** |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours** | |
| Dydd Sul/Sunday 00:00 - 24:00<br>Dydd Llun/Monday 00:00 - 24:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 00:00 - 24:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 00:00 - 24:00<br>Dydd Iau/Thursday 00:00 - 24:00<br>Dydd Gwener/Friday 00:00 - 24:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 00:00 - 24:00 | Dydd Sul/Sunday 00:00 - 24:00<br>Dydd Llun/Monday 00:00 - 24:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 00:00 - 24:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 00:00 - 24:00<br>Dydd Iau/Thursday 00:00 - 24:00<br>Dydd Gwener/Friday 00:00 - 24:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 00:00 - 24:00 |

| Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activites | |
|---|---|
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday 00:00 - 24:00<br>Dydd Llun/Monday 00:00 - 24:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 00:00 - 24:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 00:00 - 24:00<br>Dydd Iau/Thursday 00:00 - 24:00<br>Dydd Gwener/Friday 00:00 - 24:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 00:00 - 24:00 | **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday 00:00 - 24:00<br>Dydd Llun/Monday 00:00 - 24:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 00:00 - 24:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 00:00 - 24:00<br>Dydd Iau/Thursday 00:00 - 24:00<br>Dydd Gwener/Friday 00:00 - 24:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 00:00 - 24:00 |
| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 10:00 - 02:00<br>Dydd Llun/Monday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Iau/Thursday 10:00 - 02:00<br>Dydd Gwener/Friday 10:00 - 02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 02:00 | **Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 10:00 - 02:00<br>Dydd Llun/Monday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Iau/Thursday 10:00 - 02:00<br>Dydd Gwener/Friday 10:00 - 02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 02:00 |
| **Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 10:00 - 02:00<br>Dydd Llun/Monday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Iau/Thursday 10:00 - 02:00<br>Dydd Gwener/Friday 10:00 - 02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 02:00 | **Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 10:00 - 02:00<br>Dydd Llun/Monday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Iau/Thursday 10:00 - 02:00<br>Dydd Gwener/Friday 10:00 - 02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 02:00 |
| **Ffilmiau/Fims: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 10:00 - 02:00<br>Dydd Llun/Monday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Iau/Thursday 10:00 - 02:00<br>Dydd Gwener/Friday 10:00 - 02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 02:00 | **Ffilmiau/Fims: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 10:00 - 02:00<br>Dydd Llun/Monday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Iau/Thursday 10:00 - 02:00<br>Dydd Gwener/Friday 10:00 - 02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 02:00 |
| **Dramâu/Plays: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 10:00 - 02:00<br>Dydd Llun/Monday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Iau/Thursday 10:00 - 02:00<br>Dydd Gwener/Friday 10:00 - 02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 02:00 | **Dramâu/Plays: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 10:00 - 02:00<br>Dydd Llun/Monday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 02:00<br>Dydd Iau/Thursday 10:00 - 02:00<br>Dydd Gwener/Friday 10:00 - 02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 02:00 |

| **Lluniaeth yn hwyr y nos: Late night refreshments :Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors** | **Lluniaeth yn hwyr y nos: Late night refreshments :Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 23:00 - 05:00<br>Dydd Llun/Monday 23:00 - 05:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 23:00 - 05:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 23:00 - 05:00<br>Dydd Iau/Thursday 23:00 - 05:00<br>Dydd Gwener/Friday 23:00 - 05:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00 - 05:00 |
|---|---|

## 3. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- Fydd yr eiddo yn cael ei redeg gan Clwb Golff Abersoch ar gyfer aelodau
- Dim ond aelodau fydd yn cael aros ar yr eiddo ar ôl 02:00yb
- Fydd digwyddiadau aelodau yn cael eu goruchwylio ac yn dilyn rheolau'r clwb
- Mewn achlysuron lle mae na lawer o bobl yn mynychu, bydd y clwb yn mynnu bod unrhyw drefnwr yn penodi goruchwylwyr drws ac yn rheoli'r safle mewn ffordd priodol
- Mae'r eiddo wedi ei leoli yn ardal traeth Abersoch, oddi wrth anheddau preswyl
- Ni fydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae ar ôl 02:00yb

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad .

## 4. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | E-bost - sylwadau |

**3 Sylwadau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**

3.1 Cyflwynwyd sylwadau ar sail y ffaith fod pryderon am yr oriau a ofynnwyd amdanynt, gyda'r bwriad o agor y clwb i 'r cyhoedd a chynnal gweithgareddau trwyddedig tu mewn a thu allan.
Roedd pryderon y gallai'r oriau ac ofynnwyd amdano danseilio'r amcanion trwyddedu, yn denodol atal niwsans cyhoeddus a penderfynwyd y byddai'n fuddiol cal cyfarfod Teams hefo'r ymgeisydd.

3.2 Fe gafwyd cyfarfod gyda'r ymgeisydd ar y 28 o Orffennaf, ac fe gafwyd cytundeb ar gyfaddawd fel a ganlyn -

- Bydd unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir ar y safle dan reolaeth pwyllgor y clwb

- Ar ôl 0200, bydd yr eiddo ar agor i aelodau'r clwb golff yn unig
- Bydd holl ddrysau a ffenestri'r eiddo yn cael eu cadw ar gau yn ystod adloniant rheoledig, ac eithrio yn ystod mynediad ac allanfa uniongyrchol.
- Ni chaniateir i unrhyw gerddoriaeth fyw/chwyddedig gael ei chwarae tu allan yr eiddo ar ôl 23:00
- Ni fydd sŵn neu ddirgryniad y dod o'r eiddo a fyddai'n achosi niwsans.
- Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd y tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng yr oriau 22:00 - 08:00 . Bydd y poteli yn cael eu cadw oddi fewn i gwrtil yr eiddo mewn sgip neu fin gyda chaead

## 4 ARGYMHELLIAD

**Yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003, argymhellir fod y Pwyllgor yn caniatáu'r cais yn unol a'r cyfaddawd a gytunwyd gyda'r ymgeisydd .**